



Gallwch ein dilyn ar Twitter
@IBERSEquine

IBERS Athrofa y Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig

Cynllun ceffylau newydd arloesol y cyntaf o'i fath yn y DU

Er mwyn ateb galw mawr amdano, agorodd IBERS ei drysau yn ddiweddar i fyfyrwyr ar gynllun gradd newydd unigryw, BSc (Anrhydedd) Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol, yr unig gwrs o'i fath yn y DU. Caiff cynlluniau gradd IBERS sy'n ymwneud â cheffylau eu dysgu yn unol â lefel a chynnwys gradd mewn swleg, gan ddefnyddio'r ceffyl yn fodel ar gyfer llawer o'r egwyddorion a'r damcaniaethau a astudir. A ninnau'n brifysgol draddodiadol, mae gan fwyafirif helaeth y staff dysgu radd PhD ac maent yn dal ati â'u hymchwili, sy'n golygu y gall y myfyrwyr fanteisio ar y darganfyddiadau diweddaraf ym maes gwyddor ceffylau ynghyd ag adnoddau labordy i roi damcaniaethau ar waith. Mae'r radd Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol yn unigryw am ei bod yn cynnwys pynciau megis iechyd anifeiliaid, diagnosis a rheoli afiechydon a ffarmacoleg filfeddygol. Mae rhai o'r myfyrwyr sy'n ymuno â'r cynllun yn chwilio am gwrs gwahanol i filfeddygaeth a rhai'n gobeithio ymgeisio am le mewn ysgol filfeddygol ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Y fantais fawr yw bod Canolfan Geffylau'r Brifysgol yn Lluest yn sefydliad 'Ble i hyfforddi' BHS sy'n golygu y cewch farchogaeth tra byddwch yn astudio, a gweithio tuag at arholiadau'r BHS. Cewch hyd yn oed ddod â'ch ceffyl eich hun gyda chi.



Dr Debbie Nash yn dangos i fyfyrwyr y radd ceffylau sut i fesur cynnwys ffibr samplau gwair

Rhestr Cysiau

MSc

Gwyddor Ceffylau
Gwyddor Anifeiliaid
Gwyddor Da Byw

Diploma Uwchraddedig

Gwyddor Ceffylau

Tystysgrif Uwchraddedig

Maetheg Ceffylau
Bridio Ceffylau a Rheoli Bridfeydd

BSc Anrhydedd

Gwyddor Ceffylau
Astudiaethau Ceffylau (1-flwyddyn ychwanegol)

Gradd Sylfaen

Astudiaethau Ceffylau

Cyswllt

Debbie Nash

(01970) 622575

dmn@aber.ac.uk

Canolfan Geffylau Lluest mor boblogaidd ag erioed ymhlith myfyrwyr a phobl leol



Wedi ei hailwampio'n llwyr, mae'r arena awyr agored yn edrych yn wych ar gyfer 2016. Roedd y gystadleuaeth gyntaf i'w chynnal yno'n llwyddiant ysgubol – cwblhawyd dros 100 o rowndiau neidio ceffylau. Cynhelir cystadlaethau yn Lluest bron bob penwythnos gan gynnwys rhai neidio ceffylau, *dressage* agored, *dressage* cyswllt (gan gynnwys Quest Club) a *thraus* neidio.

Rydym yn cynnal clinigau rheolaidd gyda hyfforddwyr allanol yn ogystal â hyfforddiant gyda staff trin ceffylau Lluest. Mae'r hyfforddwr Patrick Print FBHS yn ymwelydd rheolaidd ac yn rhannu cyfoeth ei wybodaeth a'i arbenigedd â'r rhai sy'n cystadlu neu â'r myfyrwyr sy'n gweithio tuag at eu harholiadau BHS. Cawsom hefyd gyfle i elwa ar arbenigedd Linda de Matteo BHSI sy'n hyfforddwr achrededig BE. Trefnwyd i Olivia Oakley a Lucinda Fredricks ddod atom ym mis Chwefror, felly edrychwn ymlaen at hyfforddiant o'r radd flaenaf i ddechrau 2016!

Ar ôl clinig llwyddiannus gan Matt Ryan OBE (sydd wedi ennill dwy fedal aur yn y Gemau Olympaidd) yn yr haf roeddem yn ffodus iawn o gael prynu ceffyl ganddo. Mae Max yn gaffaeliad rhagorol i'r Brifysgol a bydd o gymorth i lawer o'r myfyrwyr i wella eu sgiliau.

Yn ogystal â Max rydym hefyd wedi prynu ysgolfeistres wych, Sox. Caseg winau 16.2 dyrnfedd yw Sox, ond nid caseg winau arferol mohoni. Ers dod atom ym mis Hydref 2015 mae eisoes yn ffefryn ymhlith y myfyrwyr. Rydym yn ffodus yn Lluest fod yma griw gwyh o geffylau hyfforddedig sy'n cynorthwyo i ddsu'r myfyrwyr at safon uchel. Cafodd Prifysgol Aberystwyth eisoes llwyddiant yn y cystadlaethau marchogaeth cenedlaethol i fyfyrwyr (BUCS). Mae tim A wedi cystadlu unwaith eleni gan ddod yn ail fel tim gydag un aelod yn ennill yr adran *dressage*. Dymunwn bob llwyddiant iddyn nhw ac i dim B yng nghystadlaethau 2016.



Ein ceffyl newydd Max yn dangos ei ddoniau yn un o gystadlaethau dressage Canolfan Lluest



Sweet Pea, un o geffylau Canolfan Llust, a rheolwr y ganolfan Hannah Appleton yn cymryd rhan yn niwrnod Horses Inside Out, a'r myfyrwyr yn eu gwyllo.

Horses Inside Out yn dod i IBERS

Daeth Gillian Higgins o Horses Inside Out (gweler www.horsesinsideout.com) i Ganolfan Geffylau'r Brifysgol yn Llust ar 1 Hydref i roi darlith arddangos ddiwrnod o hyd i'r myfyrwyr. Cafodd holl fyfyrwyr y cwrs ceffylau eu rhyddhau o'u darlithoedd arferol i ddysgu o'r arddangosiad go iawn hwn y mae cysylltiad agos rhyngddo a'r modiwlau y mae ein myfyrwyr yn eu hastudio, sef Anatomeg a Ffisioleg Ceffylau a Ffisioleg Ymarfer Corff Ceffylau. Cyn dechrau'r arddangosiad, treuliodd Gillian a'i chynorthwyrwyr o blith y myfyrwyr bron i 4 awr yn peintio cyhyrau a sgerbwd ar ei dau geffyl arddangos – Sweet Pea a Basil.

Defnyddiodd Gillian rannau o sgerbwd ceffyl go iawn i brofi ei phwyntiau a chafwyd cyfle i weld Sweet Pea a Basil yn dangos eu doniau. Hannah Appleton BHSII, rheolwr y ganolfan geffylau a marchog profiadol, oedd yn marchogaeth Sweet Pea, a chafodd Basil ei dywys yn wych gan Jen Lawrence, un o gynorthwyrwyr y ganolfan sy'n gwneud blwyddyn o brofiad gwaith yn rhan o'i gradd BSc mewn Gwyddor Ceffylau yn IBERS.

Dangosodd Gillian yn ei darlith sut y gall marchogion annog y ceffyl i ddatblygu rhai cyhyrau craidd penodol i helpu i ddal y corff yn dda, sydd yn ei dro'n galluogi'r ceffyl i godi ei gefn a dal pwysau'r marchog ac ar yr un pryd gael ymarfer corff sy'n defnyddio'i egni'n effeithlon ac yn ffisiolegol gywir. Yn yr un modd ag y gall Pilates helpu i wella cryfder craidd pobl, mae modd defnyddio egwyddorion tebyg i gryfhau cyhyrau a sgerbwd y ceffyl, sy'n gwella ei berfformiad ac yn atal anafiadau cyhyrsgerbydol rhag digwydd. Dangosodd Gillian nifer o ymarferion ystytho y gellir eu defnyddio i ddatblygu cryfder craidd y ceffyl.

Mae deall corffoedd a system cyhyrau'r ceffyl yn rhan annatod o'r cyrsiau ceffylau y mae IBERS yn eu cynnig. Mae Horses Inside Out, ynghyd â'r sesiynau ymarferol a gynhelir gan ddarlithwyr IBERS, yn dod â'r egwyddorion gwyddonol a ddysgir mewn darlithoedd a sesiynau labordy yn fyw. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr a chafodd Sweet Pea a Basil ddigonedd o foron yn wobwr am eu gwaith!



Gillian Higgins o Horses Inside Out yn dangos plygiad ochrol i'r asgwrn cefn

IBERS – Cyhoeddi ymchwil wyddonol ym maes ceffylau

Mae Dr Clare Winton, a enillodd radd PhD o IBERS yn ddiweddar, ynghyd â Dr Debbie Nash, Dr Matt Hegarty, Dr Rob McMahon, Dr Mina Davies Morel a Dr Neil McEwan, wedi cyhoeddi papur yn nodweddu geneteg poblogaeth merlod brodorol y DU a'r gwahaniaethau rhyngddynt a'r merlod a allforiwyd i Ogledd America a'u bridio yno am tua 150 mlynedd. Roedd y canlyniadau, a gyhoeddwyd yn *Ecology and Evolution* ar y cyd ag ymchwilwyr yng Nghanada, yn sicrhau annisgwyl. Edrychodd yr astudiaeth ar boblogaethau merlod Cymreig Adrannau A a B, ynghyd â merlod y Mynydd-dir (*Fell*), Ucheldir yr Alban (*Highland*), Connemara, Dartmoor, Shetland a Chors Kerry yn y ddau le. Pan gaiff poblogaeth newydd ei sefydlu ymhell o'r lleoliad gwreiddiol, mae rhywfaint o 'symudiad' genetig i'w ddisgwyl. Yn wir, roedd y data'n awgrymu bod bridiau merlod Gogledd America ychydig yn llai amrywiol na'r merlod yn y DU y maen nhw'n perthyn iddynt; roedd hyn yn arbennig o wir am ferlod y Mynydd-dir a Dartmoor. Hefyd, roedd bridiau Cymreig, Shetland a Connemara yng Ngogledd America'n rhannu peth deunydd genetig sy'n awgrymu bod rhywfaint o groesfridio wedi bod rhwng y rhain ac efallai boblogaethau o fridiau eraill. Casgliad yr astudiaeth oedd ei bod yn bwysig deall, wrth sefydlu poblogaeth newydd fel is-grŵp o grŵp gwreiddiol, sut i gynnal amrywiaeth enetig drwy reoli'r bridio a dethol yn ofalus yr unigolion sy'n bridio. Mae'r astudiaeth hon yn enghraifft dda o'r angen i reoli'n ofalus y gwaith o gyflwyno poblogaethau newydd i gynefin newydd at ddibenion cadwraeth, er mwyn diogelu'r adnoddau genetig.

Mae Nichola Reynolds, un o fyfyrwyr y radd MSc Gwyddor Ceffylau yn IBERS, ynghyd â Dr Mina Davies Morel o IBERS a'r Athro John Newcombe, milfeddyg ceffylau arbenigol, wedi cyhoeddi papur ar waith traethawd hir MSc Nichola yn edrych ar aml-ofylu mewn cesig. Cyhoeddwyd y papur yn y *Veterinary Record*. Anaml y gall system atgenhedlu'r gasg ymdopi ag aml-feichiogrwydd hyd ddiwedd ei chyfnod. Mae aml-feichiogrwydd yn digwydd yn y gasg oherwydd aml-ofylu, (efeilliaid nad ydynt yn rhai unfath) a gall fod yn gydamserol (yn digwydd ar yr un pryd) neu'n anghydamserol (pan fo hyd at 96 awr rhyngddynt). Gall ofylu anghydamserol felly greu dau embryo o wahanol feintiau, ac mae'n anodd i'r milfeddyg ganfod hynny ac felly ei reoli. Mae sawl ffordd o reoli'r sefyllfa pan fo'r gasg yn cario mwy nag un embryo. Y dewis mwyaf arferol yw cael gwared ar un efaill drwy 'binsio allan' (dinistrio un efaill yn gorfforol drwy wneud bysarchwiliad rhefrol), fel arfer drwy roi sgan uwchsaïn rhwng diwrnod 12 a 18 y feichiogrwydd. Ond os oedd yr aml-ofylu'n anghydamserol yn y lle cyntaf, bydd oedran ac felly faint yr embryonau yn wahanol, ac mae hynny'n ei gwneud yn fwy tebygol y gallai'r sgan fethu â chanfod un o'r embryonau ac y bydd y gasg heb yn wybod iddi yn cario mwy nag un. Canfu astudiaeth Nichola fod aml-ofylu anghydamserol yn digwydd mewn 28.5% o gesig a bod nifer yr achosion yn cynyddu ar ddechrau ac ar ddiwedd y tymor bridio. Mae'n bwysig iawn felly monitro'r cesig yn ofalus yn gynnar yn y feichiogrwydd, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y tymor bridio, er mwyn canfod aml-ofyladau anghydamserol ac embryonau o feintiau gwahanol.